

Safonau i Reolyddion: Fframwaith tystiolaeth

Mae'r Safonau i reolyddion (y Safonau) yn disgrifio canlyniadau rheoleiddio da pob un o swyddogaethau y rheoleiddiwr.

Cyflwyniad

Mae'r fframwaith tystiolaeth, a nodir yn y tabl isod, yn rhoi enghreifftiau o dystiolaeth y gallwn adolygu fel rhan o'n hasesiad o reoleiddiwr yn erbyn y Safon. Ni fwriedir i'r enghreifftiau a restrir yn y golofn 'tystiolaeth bosibl' fod yn hollgynhwysol, ac oherwydd bod y rheolyddion yn gweithredu o fewn cyd-destunau gwahanol, bydd perthnasedd y gwahanol fathau o dystiolaeth yn amrywio o un rheoleiddiwr i'r llall. Am y rheswm hwnnw, nid ydym yn rhagnodi set ddiffiniol o dystiolaeth y byddwn yn ei defnyddio i asesu pob rheoleiddiwr.

Gan nad yw'r rhestr o dystiolaeth bosibl yn hollgynhwysfawr, efallai y byddwn yn dewis defnyddio tystiolaeth ychwanegol yn ein hasesiad. Yn yr un modd, rydym yn annhebygol o ddefnyddio'r holl dystiolaeth bosibl ar gyfer yr holl Safonau ar gyfer pob rheoleiddiwr. Bydd y wybodaeth y byddwn yn ei cheisio gan y rheolyddion yn gymesur, ac yn dibynnu ar yr hyn y mae gennym fynediad ato, a lle bo'n berthnasol bydd yn debygol o gael ei cheisio trwy geisiadau am ragor o wybodaeth.

Wrth asesu yn erbyn y Safonau, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol ceisio adborth gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion cofrestredig, aelodau'r cyhoedd, cleifion a/neu staff y rheoleiddiwr.

Gallai rhai elfennau o fewn fframwaith y dystiolaeth fod yn berthnasol ar draws yr holl Safonau. Er enghraifft:

- adborth a dderbyniwyd gan gynnwys pryderon a roddwyd i ni gan randdeiliaid (y cyhoedd, cleifion, staff rheolyddion)
- neu sefydliadau trydydd parti a chanfyddiadau o arolygon)
- rhannau perthnasol o'n set ddata reolaidd
- gwybodaeth o'n hadolygiadau o benderfyniadau addasrwydd i ymarfer y rheoleiddiwr dan ein proses Adran 29
- gwybodaeth a chanfyddiadau a gasglwyd o'n harchwiliad

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu mewn cydweithrediad â'r rheolyddion cyn ei gweithredu, a bydd yn destun adolygiad rheolaidd unwaith y bydd yn weithredol.

Llywodraethu

Safonol

Tystiolaeth bosibl

Safon 1

Llywodraethu da

Mae'r corff llywodraethu ac uwch arweinwyr yn rhoi trefniadau ar waith i'r sefydliad amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol a chynnal hyder y cyhoedd.

- Cofnod o dystiolaeth o ddiben y rheoleiddiwr a sut mae hyn yn cael ei fynegi ar gyfer rhanddeiliaid, gan gynnwys sut mae hyn yn berthnasol i'w amcanion statudol fel y nodir yn ei ddeddfwriaeth
- Tystiolaeth o weithgareddau a gyflawnir gan y rheoleiddiwr sy'n cyd-fynd â'i amcanion statudol, a sut mae'r rheoleiddiwr yn ystyried unrhyw wrthdaro posibl yn ei waith gyda'r rhain, er enghraifft gwaith i gefnogi neu ddatblygu'r proffesiwn
- Cynlluniau busnes a strategol, gan gynnwys sut mae'r rhain yn berthnasol i swyddogaethau statudol
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn ceisio sicrhau bod penderfyniadau arweinyddiaeth yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth o risgiau a thystiolaeth, gan gynnwys risgiau ymarfer a'r cyd-destun gweithredu allanol
- Tystiolaeth o reoli gwrthdaro buddiannau posibl o fewn strwythurau llywodraethu gan gynnwys cofrestrau buddiannau cyhoeddedig cyfredol

- Tystiolaeth ynghylch sut mae'r rheoleiddiwr yn ymgorffori polisïau rheoleiddio newydd ar draws ei swyddogaethau
- Tystiolaeth o gymhwyso polisïau rheoleiddio yn gyson
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn darparu llwybrau i aelodau staff godi pryderon e.e. drwy bolisi chwythu'r chwiban / gwarcheidwad rhyddid i siarad allan
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn mesur effaith ac effeithiolrwydd ei bolisïau
- Canlyniadau archwiliadau mewnol / adolygiadau o adolygiadau effeithiolrwydd y Bwrdd / Cyngor a thystiolaeth bod y rheoleiddiwr wedi gweithredu ar y canlyniadau hynny
- Tystiolaeth o sut mae'r rheoleiddiwr wedi asesu ei ddiwylliant sefydliadol ac unrhyw ddysgu a gafwyd i sicrhau gwelliannau
- Enghreifftiau o'r rheoleiddiwr yn annog didwylledd a dysgu pan fydd pethau wedi mynd o chwith
- Rhesymeg glir sut mae'r rheoleiddiwr yn penderfynu pa wybodaeth a drafodir yn gyhoeddus ac yn breifat e.e. drwy gymhwyso polisi / canllawiau
- Agendâu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau (ar gais trwy eithriad ar sail risg)

Safon 2

Adrodd ar berfformiad sefydliadol a mynd i'r afael â phryderon

Mae'r sefydliad yn adrodd yn gyhoeddus ar ei berfformiad, yn nodi ac yn gweithredu ar ddysgu ac yn mynd i'r afael â phryderon am ei berfformiad.

- Adroddiadau blynyddol a gwybodaeth perfformiad arall sydd ar gael i'r cyhoedd
- Tystiolaeth o lynu wrth God Llywodraethu'r Comisiwn Elusennau i gefnogi arferion llywodraethu da a hunanasesiadau anffurfiol (lle bo'n berthnasol)
- Manylion prosesau tryloyw, hygyrch ar gyfer codi pryderon gyda'r rheoleiddiwr, gan gynnwys sut mae'n diffinio cwynion corfforaethol
- Enghreifftiau bod y rheoleiddiwr yn cynnig sianeli i randdeiliaid mewnol ac allanol – gan gynnwys y cyhoedd, chwythwyr chwiban, a thrwy unrhyw warcheidwad rhyddid i godi llais – i godi pryderon, ac yn darparu data ar bryderon a godwyd yn ogystal â thystiolaeth o ddysgu ohonynt
- Enghreifftiau o gamau a gymerwyd mewn ymateb i ymholiadau cyhoeddedig ac adroddiadau perthnasol eraill, gan gynnwys adroddiadau / canfyddiadau gan yr Awdurdod, ymholiadau allanol, adroddiadau polisi perthnasol, adroddiadau crwneriaid ac ati
- Enghreifftiau o waith rhagweithiol gan y rheoleiddiwr i geisio adborth, nodi a rhoi dysgu ar waith
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn mesur effaith ac effeithiolrwydd ei bolisïau

Cyffredinol

Safonol

Tystiolaeth bosibl

Safon 3

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

Mae'r sefydliad yn hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac yn cymryd camau i leihau anghydraddoldebau a sicrhau bod ei bolisiau a'i brosesau yn deg ac yn gyfiawn i bawb.

- Cyfeiriwch at y **Matrics Tystiolaeth Safon 3**

Rydym yn cynnig y dylid cadw'r canlyniadau a'r dangosyddion ym matrics tystiolaeth S3 y tu hwnt i 2025/26 oherwydd eu bod wedi darparu strwythur clir i'n hasesiadau S3 ers 2023/24, maent yn parhau i fod yn berthnasol i eiriad S3 wedi'i ailddrafftio ac yn gyfarwydd i reolyddion a staff perthnasol yn yr Awdurdod. Nid ydym wedi nodi dangosyddion na ffynonellau tystiolaeth pellach i'w hychwanegu, ac nid ydym wedi nodi unrhyw ddangosyddion cyfredol y byddem am eu dileu. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried adborth gan reolyddion yn ystod y cyfnod ymgysylltu sydd i ddod, ac yn cael trafodaethau pellach o fewn y tîm, a gallwn wneud addasiadau i gynnwys y matrics S3 os oes angen. Bydd angen i ni hefyd ddiwygio cyflwyniad y matrics e.e. cael gwared ar y blynyddoedd a newid y fformat a/neu'r teitl, a byddwn yn tynnu sylw rheolyddion at hyn pan fydd y safonau a'r fframwaith tystiolaeth yn cael eu dosbarthu. Gallem hefyd gyflwyno cynnwys y matrics o fewn y Fframwaith Tystiolaeth ei hun yn hytrach na chael dogfen S3 ar wahân – mae manteision ac anfanteision i hynny.

Safon 4

Ymgysylltu a gweithio gydag eraill

Mae'r sefydliad yn ymgysylltu ac yn cydweithio'n effeithiol, er mwyn hysbysu, gwella a chyflawni ei waith. Mae'n ceisio aliniad priodol â sefydliadau eraill, ac yn nodi ac yn rheoli risgiau i'r cyhoedd mewn perthynas â'i unigolion cofrestredig.

- Gwybodaeth am adborth rhanddeiliaid am effeithiolrwydd y broses ymgysylltu ynghylch unrhyw newidiadau sylweddol i waith y rheoleiddiwr, megis adolygu/datblygu safonau a chanllawiau
- Ymgynghori â rhanddeiliaid a chmau a gymerwyd o ganlyniad
- Enghreifftiau o berthnasodedd gwaith â rhanddeiliaid perthnasol, er enghraifft grwpiau cleifion, cyrff proffesiynol, undebau llafur, cyflogwyr a rheolyddion eraill
- Gwybodaeth a anfonwyd at yr Awdurdod gan rhanddeiliaid drwy'r broses Rhannu Eich Profiad / ceisiadau am adborth / arolygon
- Gwybodaeth am sut mae'r rheoleiddiwr yn gweithio gyda sefydliadau eraill i gasglu a rhannu gwybodaeth (gyda mesurau diogelu data priodol) am ei unigolion cofrestredig, a lle bo'n briodol yn cyfeirio achosion addasrwydd i ymarfer at y sefydliadau hynny trwy broses sydd wedi'i dogfennu, sy'n gyson, yn deg, wedi ei chymhwyso'n deg, ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd
- Prosesau ar gyfer cyfathrebu/datgelu gwybodaeth am Addasrwydd i Ymarfer sydd heb ei chyhoeddi i rhanddeiliaid perthnasol, er enghraifft cyflogwyr, fel y bo'n briodol

- Enghreifftiau o aliniad neu dystiolaeth bod rheolyddion yn ystyried aliniad rhyngddynt eu hunain trwy bolisiâu / prosesau / Memorandwm o Ddealltwriaeth er mwyn hyrwyddo diogelu'r cyhoedd lle bo modd
- Enghreifftiau o'r rheoleiddiwr yn gweithio gydag eraill i reoli risgiau a nodwyd mewn perthynas â'u unigolion cofrestredig

Safonau a Chanllaw

Safonol

Tystiolaeth bosibl

Safon 5

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Unigolion Cofrestredig

Mae'r sefydliad yn cynnal, yn cyhoeddi ac yn hyrwyddo safonau a chanllawiau cyfoes sy'n cefnogi ymarferwyr iechyd a gofal i weithredu'n broffesiynol ac ymarfer yn ddiogel, gan flaenoriaethu diogelu'r cyhoedd

- Safonau / canllawiau cyfredol ar gyfer cofrestryddion, ac unrhyw ddeunydd ategol sy'n helpu cofrestryddion i'w deall a'u cymhwyso
- Gwybodaeth am yr amser ers y diwygiad diwethaf o'r safonau, a manylion am y ffordd y cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw
- Gwybodaeth am y prosesau ar gyfer adolygu / datblygu, gweithredu a gwerthuso Safonau / Canllawiau, gan gynnwys sut mae adborth rhanddeiliaid yn cael ei ystyried. Mae hyn yn cynnwys manylion sut mae'r rheoleiddiwr wedi ystyried anghenion presennol a dyfodol y dirwedd gofal iechyd (megis technoleg, gweithio mewn partneriaeth rhwng cleifion / defnyddwyr gwasanaeth ac unigolion cofrestredig, yr angen am hyblygrwydd, symud i ofal mwy cymunedol, gofal iechyd ataliol)
- Gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdod ynghylch a yw'r safonau / canllawiau'n parhau i fod yn addas at y diben ac yn adlewyrchu gofal a diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth

Addysg a Hyfforddiant

Safonol

Tystiolaeth bosibl

Safon 6

Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant

Mae'r sefydliad yn cynnal ac yn

- Manylion sut mae'r safonau ar gyfer addysg yn cysylltu/mapio â'r safonau ar gyfer unigolion cofrestredig ac yn blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd ac yn ystyried gweithle sy'n esblygu (technoleg, gweithio mewn partneriaeth rhwng cleifion / defnyddwyr gwasanaeth ac unigolion cofrestredig, yr angen am hyblygrwydd, symud i ofal mwy cymunedol, gofal iechyd ataliol)

cyhoeddi safonau cyfoes ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd, yn paratoi dysgwyr i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol a bodloni anghenion poblogaethau amrywiol.

- Manylion proses ffurfiol ar gyfer adolygu'r safonau addysg a gwybodaeth am amllder a chanlyniad adolygiadau
- Manylion gwerthusiad o effeithiolrwydd y broses datblygu/adolygu safonau, gan gynnwys mewn perthynas â'r ystyriaeth a roddwyd i farn rhanddeiliaid a chanlyniadau sicrhau ansawdd
- Tystiolaeth bod safonau'r rheoleiddiwr ar gyfer addysg a hyfforddiant yn ei gwneud yn ofynnol i'r safonau ar gyfer cofrestru gael eu cynnwys fel rhan o gwricwlwm y rhaglen
- Tystiolaeth bod safonau'r rheoleiddiwr ar gyfer addysg a hyfforddiant yn darparu ar gyfer cyfranogiad cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a/neu ofalwyr mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn darparu canllawiau i ddarparwyr addysg a hyfforddiant i'w helpu i ddeall a bodloni safonau'r rheoleiddiwr
- Manylion pellach ar gydrannau penodol diogelwch cleifion y dylid eu cynnwys mewn safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant – e.e. rôl cleifion, y cyhoedd, gofawyr a theuluoedd wrth atal digwyddiadau diogelwch cleifion a gwella diogelwch, meithrin gwydnwch, y gallu i ofalu amdanoch eich hun, er enghraifft.
- Cyfeiriad penodol at feysydd allweddol pellach o risg y dylai rheolyddion ddisgwyl i ddarparwyr addysg a hyfforddiant gael systemau ar waith i'w rheoli e.e. dysgu seiliedig ar waith, deallusrwydd artiffisial (ochr yn ochr â thechnoleg) ac asesu proffesiynoldeb.
- Tystiolaeth y gall y rheoleiddiwr fod yn sicr bod myfyrwyr a hyfforddeion yn deall sut mae'r rheoleiddiwr yn cefnogi proffesiynoldeb.

Safon 7

Sicrwydd Ansawdd Addysg a Hyfforddiant

Mae'r sefydliad yn effeithiol o ran sicrhau ei hun bod darparwyr addysg ac asesu yn darparu dysgwyr sy'n bodloni'r canlyniadau addysg a gofynion cofrestru perthnasol eraill, ac yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer dysgu.

- Disgrifiad/dogfennau proses/canllaw yn ymwneud â'r broses SA, gan gynnwys dadansoddi, arolygu, penodi a hyfforddi ymwelwyr/arolygwyr/paneli, ac adolygu prosesau
- Lle bo'n berthnasol, tystiolaeth o sut mae'r rheoleiddiwr yn rheoli ac yn cyflawni asesiadau/arholiadau sy'n arwain at gofrestru
- Gwybodaeth am waith y rheoleiddiwr i hyrwyddo cymesuredd yn y broses sicrhau ansawdd
- Tystiolaeth o weithgarwch sicrhau ansawdd rheoleiddiwr, gan gynnwys adroddiadau canlyniadau ac unrhyw bryderon neu dueddiadau a nodwyd a chatau dilynol a gymerwyd, er enghraifft pan fo cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amodau
- Tystiolaeth o broses i godi pryderon am raglenni addysg/hyfforddiant a chatau a gymerwyd mewn perthynas â'r pryderon hyn, gan gynnwys nifer y pryderon a godwyd a monitro unrhyw themâu

- Gwybodaeth am sut y cesglir adborth gan sefydliadau addysgol, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill, a sut y defnyddir yr adborth hwn
- Arfarnu a yw rhaglenni'n darparu hyfforddeion sy'n bodloni'r anghenion ar gyfer cofrestru, gan gynnwys defnyddio adborth gan gyflogwyr
- Tystiolaeth bod y broses SA yn canolbwyntio ar gadarnhau bod darparwyr yn cynhyrchu myfyrwyr a hyfforddeion sy'n bodloni'r safonau ar gyfer cofrestru
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn ystyried unrhyw dueddiadau perthnasol a dysgu o ganlyniadau addasrwydd i ymarfer myfyrwyr lle bo'n briodol fel tystiolaeth ar gyfer y broses SA

Cofrestru

Safonol

Tystiolaeth bosibl

Safon 8

Y gofrestr gyhoeddus

Mae'r sefydliad yn cadw cofrestr gyhoeddedig gywir a hygyrch o'r holl ymarferwyr iechyd neu ofal, gan nodi'n glir unrhyw gyfyngiadau ar eu cofrestriad. Lle bo'n briodol, mae hyn yn berthnasol i fusnesau a mangreoedd, sydd wedi'u cofrestru.

- Fformat, cynnwys a hygyrchedd y gofrestr ar-lein
- Gwybodaeth am y rhesymeg dros gynnwys y wybodaeth a ddangosir ar y gofrestr, gan gynnwys gofynion cyfreithiol lle bo'n berthnasol
- Gwiriadau cofrestr a wneir gan yr Awdurdod
- Proses ar gyfer diweddarau a sicrhau ansawdd y gofrestr, gan gynnwys gwirio cywirdeb data
- Gwybodaeth am gysylltiadau rhwng addasrwydd i ymarfer a swyddogaethau cofrestru i sicrhau bod unigolion cofrestredig yn parhau i fod wedi'u cofrestru'n briodol
- Gwybodaeth am sut mae'r gofrestr yn cael ei diweddarau gyda gwybodaeth addasrwydd i ymarfer

Safon 9

Y broses gofrestru

Mae'r sefydliad yn gweithredu proses dryloyw, gymesur, effeithlon a theg i ganiatáu i ymarferwyr addas yn unig, a, lle bo'n

- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)/dogfennau proses ac unrhyw wybodaeth arall sy'n amlinellu sut mae'r rheoleiddiwr yn delio â honiadau o arfer anghyfreithlon
- Data ar nifer yr achosion ymarfer anghyfreithlon a adolygir gan y rheoleiddiwr bob blwyddyn, ac enghreifftiau o sut y rheolwyd y rhain
- Gwybodaeth i'r cyhoedd am ymarfer anghyfreithlon a sut mae'r rheoleiddiwr yn delio â honiadau o ymarfer anghyfreithlon

berthnasol, busnesau neu safleoedd ymuno, aros ar, a dychwelyd i'w gofrestr.

Safon 10

Diogelu'r cyhoedd rhag ymarferwyr heb gofrestru

Mae'r sefydliad yn cymryd camau cymesur mewn ymateb i'r risg y bydd pobl yn camarwain y cyhoedd ynghylch eu statws cofrestru.

- ~~Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)/dogfennau proses ac unrhyw wybodaeth arall sy'n amlinellu sut mae'r rheoleiddiwr yn delio â honiadau o arfer anghyfreithlon~~
- ~~Data ar nifer yr achosion ymarfer anghyfreithlon a adolygir gan y rheoleiddiwr bob blwyddyn, ac enghreifftiau o sut y rheolwyd y rhain~~
- ~~Gwybodaeth i'r cyhoedd am ymarfer anghyfreithlon a sut mae'r rheoleiddiwr yn delio â honiadau o ymarfer anghyfreithlon~~
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)/dogfennau proses ac unrhyw wybodaeth arall sy'n amlinellu sut mae'r rheoleiddiwr yn delio â honiadau o arfer anghyfreithlon
- Data ar nifer yr achosion ymarfer anghyfreithlon a adolygir gan y rheoleiddiwr bob blwyddyn, ac enghreifftiau o sut y rheolwyd y rhain
- Gwybodaeth i'r cyhoedd am ymarfer anghyfreithlon a sut mae'r rheoleiddiwr yn delio â honiadau o ymarfer anghyfreithlon

Safon 11

Addasrwydd parhaus ar gyfer cofrestru

Mae gan y sefydliad ofynion a phrosesau cymesur ar waith i sicrhau bod unigolion cofrestredig yn cynnal eu sgiliau ac yn addas i ymarfer.

- Gwybodaeth am y broses y mae'n rhaid i unigolion cofrestredig ei dilyn i ddangos addasrwydd parhaus i ymarfer (CFTP)
- Gwybodaeth am broses y sefydliad ar gyfer nodi ac ymateb i bryderon y gallai unigolion cofrestredig fod yn anaddas i'w cofrestru (megis cael rhybudd neu gyhuddiad am drosedd sy'n destun ymchwiliad neu sancsiwn gan gyrff rheoleiddio eraill, neu gael eu cynnwys ar restr waharddedig berthnasol)
- SOPs/dogfennau proses sy'n disgrifio sut mae CFTP yn cael ei asesu gan y rheoleiddiwr
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn ceisio adborth ar ei brosesau CFTP, ac yn ystyried yr adborth hwn wrth wneud newidiadau i'r prosesau hyn
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn adolygu ei brosesau CTP yn rheolaidd i sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn addas at y diben
- Gwybodaeth i unigolion cofrestredig a'r cyhoedd am sut mae'r rheoleiddiwr yn asesu CFTP

- Gwybodaeth am sut mae'r rheoleiddiwr yn monitro gweithrediad ei system CFTP, megis lefelau cydymffurfio ac adrodd ar berfformiad

Pryderon

Safonol

Tystiolaeth bosibl

Safon 12

Codi pryderon am unigolyn cofrestredig

Mae'r sefydliad yn sicrhau bod y broses ar gyfer codi pryder yn hygyrch i bawb, yn egluro'r mathau o bryderon y dylid ddim yn hoffi ei defnyddio cyfeirio ato, ac yn cefnogi datrysiad lleol amserol i achosion lle bo'n briodol.

- Gwybodaeth am weithgarwch ymgysylltu a gyflawnwyd i fesur a/neu wella ymwybyddiaeth o broses addasrwydd i ymarfer y rheoleiddiwr
- Gwybodaeth sydd ar gael i staff a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am y mathau o bryderon y gellir delio â nhw
- Gwybodaeth am atgyfeiriadau drwy swyddogaeth archwilio mangreoedd/busnes rheoleiddiwr, lle bo'n berthnasol
- Gwybodaeth am hygyrchedd y broses gwyno addasrwydd i ymarfer gan gynnwys eglurder a hygyrchedd gwybodaeth allweddol, cymorth wedi'i deilwra ar gyfer gwahanol grwpiau (megis addasiadau rhesymol) wrth wneud cwyn a dulliau lluosog sydd ar gael ar gyfer gwneud cwyn
- Canllawiau i staff ar gyfeirio achwynwyr at sefydliadau eraill, lle bo'n briodol, a thystiolaeth o hyn yn digwydd
- Dull o gyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a allai fod eisiau codi cwyn
- Tystiolaeth o gyfeirio at gefnogaeth sydd ar gael gan sefydliadau eiriolaeth a sefydliadau cwynion eraill
- Map ffordd cwynion gyda phwyntiau allweddol, canlyniadau posibl ac amserlenni ar gyfer pob cam
- Pwynt cyswllt wedi'i ddiffinio ar gyfer achwynwyr neu ddull amgen addas
- Tystiolaeth o system ar gyfer cyfathrebu rheolaidd drwy gydol y broses, hyd yn oed os oes cynnydd cyfyngedig

Safon 13

Ymchwilio a datrys pryderon – prydlondeb

Mae'r sefydliad yn ystyried, yn ymchwilio ac yn datrys pryderon am unigolion cofrestredig cyn gynted â phosibl ar gyfer datrysiad teg a diogel i'r achos

- SOPs/dogfennau proses sy'n sefydlu sut mae'r rheolydd yn rheoli camau'r broses addasrwydd i ymarfer, a ffurflenni/llythyrau templed cysylltiedig
- CLGau a DPA perthnasol i bob cam o'r broses addasrwydd i ymarfer a thystiolaeth o sut mae cydymffurfiad wedi ei fonitro; deilliannau'r broses fonitro a chamau a gymerwyd parthed diffyg cydymffurfiad
- Gwybodaeth am sut mae'r rheoleiddiwr yn sicrhau ei hun ei fod yn symud achosion yn eu blaenau mewn modd amserol ac yn ymchwilio i'r rhain yn drylwyr
- Tystiolaeth bod amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses addasrwydd i ymarfer yn cael eu monitro'n weithredol, a bod achosion yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn rhagweithiol er mwyn osgoi oedi
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn nodi'n glir sut mae'n penderfynu pa gwynion sy'n cyrraedd ei drothwy ar gyfer ymchwilio, a sut mae'r trothwy hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson, yn deg, ac yn unol â'i safonau, rheolau a pholisïau
- Set ddata berthnasol (gan gynnwys naratif cyd-destunol)
- Papur Cyngor Addasrwydd i Ymarfer

Safon 14

Ymchwilio a datrys pryderon – tegwch

Mae polisïau a phroses y sefydliad ar gyfer ystyried, ymchwilio a datrys pryderon am unigolion cofrestredig yn deg, yn gymesur, yn gyson ac yn dryloyw, tra'n diogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd.

- Prosesau i sicrhau ansawdd penderfyniadau a wneir i beidio ag ymchwilio, a nodi unrhyw ddysgu perthnasol
- Proses ar gyfer, a chanlyniad, sicrwydd mewnol rheolaidd o benderfyniadau a wneir gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r broses addasrwydd i ymarfer
- Gwybodaeth am y nifer o bryderon a godwyd/cwynion a wnaed a ategwyd o ran ansawdd penderfyniadau addasrwydd i ymarfer, a chamau a gymerwyd mewn ymateb.
- Gwybodaeth am benodi, hyfforddi a gwerthuso penderfynwyr
- Dogfennau canllaw ar gyfer penderfynwyr i sicrhau cysondeb penderfyniadau
- Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn nodi'n glir sut mae'n penderfynu pa gwynion sy'n cyrraedd ei drothwy ar gyfer ymchwilio, a sut mae'r trothwy hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson, yn deg, ac yn unol â'i safonau, rheolau a pholisïau
- Gwybodaeth am brosesau a throthwyon sy'n cael eu cyhoeddi / eu rhannu gyda phartïon i sicrhau tryloywder
- Set ddata berthnasol

Safon 15

**Pryderon am unigolion
cofrestredig - adnabod risg a
gweithredu arno**

Mae'r sefydliad yn nodi ac yn rheoli risgiau ym mhob achos sy'n awgrymu bod unigolyn cofrestredig yn peri risg ddifrifol i ddiogelwch a hyder y cyhoedd ac yn cymryd camau amserol i gyfyngu ar ymarfer lle bo angen (megis mesurau dros dro).

- SOPs/prosesau ar gyfer asesiad risg cychwynnol a pharhaus achosion, yn ogystal â'r broses ble mae'r rheoleiddiwr yn blaenoriaethu achosion
- Canllawiau i benderfynwyr ar feini prawf ar gyfer atgyfeiriadau gorchymyn interim
- Prosesau a chanllawiau i staff ar asesu risg a rheoli achosion ar adeg derbyn a thrwy gydol oes ymchwiliad
- Prosesau ar gyfer adolygu a yw asesiadau risg yn effeithiol ac yn amserol

Safon 16

**Pryderon am unigolion
cofrestredig – cefnogaeth i bob
parti**

Mae'r sefydliad yn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar achwynwyr, tystion ac unigolion cofrestredig sy'n ymwneud â chwyn drwy gydol yr achos ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiad achos mewn ffordd sensitif ac amserol.

- Gwybodaeth i gyfranogwyr yn y broses. Gall hyn gynnwys pa wybodaeth y gellir ei gofyn amdani, amserlenni amcangyfrifedig ar gyfer gwahanol gamau'r broses, manylion pryd y darperir diweddariadau a beth i'w ddisgwyl gan y rheoleiddiwr ym mhob cam.
- Canllawiau i dystion, achwynwyr, cofrestryddion, partïon agored i niwed ac ati.
- CLGau, SOPs a chanllawiau i staff ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb yn rheolaidd; monitro cydymffurfiad â'r CLGau, yr SOPs a'r dogfennau canllaw hynny; a chymryd camau adferol yn brydlon a nodi materion thematig
- Gwybodaeth, canllawiau a hyfforddiant sydd ar gael i staff, a phrosesau ar waith i nodi a chefnogi partïon agored i niwed a/neu eu cyfeirio at wasanaethau cymorth
- Gwybodaeth am y cyfle i bob parti roi adborth / codi pryderon am y broses, a'r gwersi a ddysgwyd / y camau a gymerwyd o ganlyniad.